CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Ionawr 8, 2019 am 7.30 o'r gloch.

AGENDA

Gwedd

1. Ymddiheuriadau:

2. Datgan diddordeb:

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr 11, 2018

4. Materion yn codi o'r cofnodion Rhagfyr 11, 2018

Eitem 10.d.i Lythyr ateb (20/12/2018) oddi wrth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod y twll sydd yn wyneb y ffordd ar gyffordd Llanfachreth / y ffordd i hen bont Llanelltyd wedi cael ei lenwi.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (27/11/2018) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2019 / 2020. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 25, 2019.
Praesept 2017 /2018 - £7,500.00. Praesept 2018 /2019 - £7,500.00.
Rhoddwyd manylion o'r amcan gyfrif costau y Cyngor am 2018 / 2019 a manylion at praesept 2019 / 2020 i'r aelodau. Mae angen eu cadarnhau a chofnodi.

c. Llythyr (12/12/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i gyflog Clercod ar gyfer 2019/2020 o 1/4/2019. Mae'r cyflog yn unol â Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2019-2020.

Cyflog presennol y Clerc yw £10.107 yr awr ar bwynt SCP 19, h.y. £10.107 x 12 x12 = £1,455.40 y flwyddyn.

Cyflog newydd am 2019/20 fydd £10.37 yr awr ar bwynt SCP 19, h.y. £10.37 x 12awr x 12mis = £1,493.28 y flwyddyn. Mae pwynt SCP 19 wedi newid i SCP 8.

ch. Bil (20/12/2018) am £75 oddi wrth John A. Williams am agor bedd ar gyfer claddu llwch yn y fynwent ar 11/12/2018.

d. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr, 2018: £8,572.80.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (14/12/2018) oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd cyfrifoldeb rheolaeth Canolfannau Hamdden Gwynedd yn cael ei drosglwyddo i gwmni newydd sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

10. Materion Brys

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc